## CYNGOR BRO PONTARFYNACH COMMUNITY COUNCIL

**Nos Iau 11eg Mehefin 2020 am 7.30 y.h.**

**Thursday 11th June, 2020 at 7.30 p.m.**

Cynhaliwyd cyfarfod Ffrydiol dros Zoom gyda'r canlynol yn bresennol:
A Virtual Meeting via Zoom was held with the following present:

Jane Hopkins (Cadeirydd/Chair);
Robert Davies, Eluned Evans, Gareth Jones, Phil Lloyd. Robert Pratt.

Cynghorydd Sir/County Councillor Rhodri Davies.

**YMDDIHEURIADAU / APOLOGIES**
Brython Davies, Rhodri Jenkins

**1. MATERION PERSONOL**
Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod rhuthiol cyntaf yn hanes y Cyngor Bro. Sefyllfa wedi codi oherwydd na ellir cynnal cyfarfodydd wyneb i wyneb oherwydd y pandemig Coronofeirws sydd wedi achosi cyfyngiadau cenedlaethol

**1. PERSONAL MATTERS**
The Chair welcomed members to the first virtual meeting of the Community Council. The situation has arisen due to not being able to hold a face to face meeting because of national lockdown as a result of Coronovirus pandemic.

**2. DATGAN DIDDORDEB**
Atgoffwyd yr aelodau o'r angen i ddatgan buddiant os bydd sefyllfa'n codi.

**2. DECLARATION OF INTEREST**
Members were reminded of the need to declare an interest if a situation arises.

**3. Trefniadau Cyfarfod Blynyddol**
Cynhelir y Cyfarfod Blynyddol yn arferol ym mis Mai ond Llywodraeth Cymru wedi addasu Deddf i gyfarfodydd Cynghorau Tref a Chymuned i'w cynnal yn rhuthiol oherwydd cyfyngiadau cloi ac hefyd i fedru ohirio Cyfarfodydd Blynyddol tan ddiwedd y flwyddyn 2020.
Penderfynwyd i ohirio'r Cyfarfod Blynyddol a chadarnhaodd Jane Hopkins y byddai'n fodlon parhau'n yn y Gadair ar hyn o bryd.

**3 AGM Arrangements**
AGM usually held in May. Due to lockdown arrangements Welsh Government have amended legislations so that Community Council Meetings will be held virtually at present and that AGMs can be deferred until the end of 2020.
It was resolved to defer the AGM and Jane Hopkins confirmed she was willing to stay as Chair for the time being.

**4. COFNODION**
**Cyfarfod ar 5ed Mawrth, 2020**
Cadarnhawyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod. Cynigiwyd gan Ph. Lloyd ac eiliwyd gan R. Davies.

**4. MINUTES**
**Meeting of 5th March, 2020**
The minutes were confirmed as a true record of the meeting which was proposed by Ph. Lloyd and seconded by R. Davies.

**5. MATERION SY'N CODI O'R COFNODION**

(a) Canslwyd cyfarfodydd mis Ebrill a Mai 2020 oherwydd cyfyngiadau cloi Coronofeirws.

(b) Nid oedd materion eraill i'w codi o'r cofnodion ond deallir ar hyn o bryd mai ond materion brys mae Cyngor Sir Ceredigion yn gweithredu arno.

**5. MATTERS ARISING FROM THE MINUTES**

(a) Meetings for April and May were cancelled due to the Coronovirus lockdown procedures.

(b) There were no other matters arising from the minutes but it was understood that Ceredigion County Council were only attending to urgent matters at present.

**6. CYLLID**

- Talu anfonebau:

(a) Zurich Municipal Insurance - £517.75 (cynigiwyd gan by R. Pratt ac eiliwyd gan G. Jones)

(b) G. Styles: £40.00 am archwiliad mewnol y cyfrifon 20219/20 (cynigiwyd taliad gan E. Evans ac eiliwyd gan Ph. Lloyd.

- Derbyniadau

(c) Praesept o £1,166.67 ar 30ain Ebrill, gweddill i'w derbyn diwedd Gorffennaf a diwedd Hydref.

(d) £15.90 o gyllid ail-gylchu gwydr am chwarter 3 (Hydref-Rhagfyr 2019).

(e) Derbyniwyd lythyrau cydnabod rhoddion wrth Ambiwlans Awyr Cymru, CFfI Trisant, Eisteddfod Genedlaethol Tregaron, Ysgol Mynach, Tîm Rygbu Ieuenctid Ceredigion ynghyd â Threialon Cŵn Defaid Rhyngwladol Ceredigion a ymholwyd a oedd angen dychwelyd y rhodd neu ei gadw tan y flwyddyn ganlynol gan fod y Digwyddiad Rhyngwladol wedi'i ohirio tan 2021. Penderfynwyd, wrth i ddigwyddiadau gael eu gohirio tan y flwyddyn ganlynol, nad oedd angen dychwelyd unrhyw roddion.

**6. FINANCE**

- Payment of invoices

(a) Zurich Municipal Insurance: £517.75 (proposed by R. Pratt and Seconded by G. Jones)

(b) G. Styles: £40.00 for undertaking internal audit on the 2019/20 accounts. (Payment proposed by E. Evans and seconded by Ph. Lloyd).

- Receipts

(c) £1,166.67 for part payment of the Precept, remaining to be received end of July and end of October.

(d) £15.90 recycling funding for quarter 3 (Oct-Dec 2019).

(e) Letters of acknowledgement of donation received from Wales Air Ambulance, Trisant YFC, Eisteddfod Genedlaethol Tregaron, Ysgol Mynach, Ceredigion Youth Rugby Team and Ceredigion International Sheep Dog Trials who enquired if the donation needed to be returned as the International Event had been postponed until 2021. It was resolved that as events were postponed until the following year no donations needed to be returned.

**7. CYFRIFON 2019/2020**

Cynhaliodd Mrs G. Styles archwiliad mewnol o'r cyfrifon, ble gwelwyd eu bod mewn trefn. Roedd yr Aelodau wedi derbyn copïau o'r dogfennau cyn y cyfarfod a phenderfynwyd derbyn y cyfrifon ac hefyd ymateb i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol y flwyddyn yn

**7. 2019/2020 ACCOUNTS**

Mrs. G. Styles undertook an internal audit of the accounts, which were found to be all in order. Members had received copies prior to the meeting and duly resolved to accept the accounts and respond to the Annual Governance Statement of the Annual Return Year Ended 31 March 2020 as well as

diweddu 31 Mawrth 2020 yn ogystal â chynnal asesiad risg ariannol ac asedau.

conducting a financial and asset risk assessment.

**8. Grant Covid 19 Cefn Croes**

Mae perchennog fferm wynt Cefn Croes, Falck Renewables wedi darparu cyllid ychwanegol i gynorthwyo'r rhai yn y gymuned sy'n cael anawsterau o ganlyniad i bendemig Covid 19 ac yn ymholi am awgrymiadau o ffyrdd o ddosrannu'r grant. Aelodau i gynnig awgrymiadau a thrafod yn y cyfarfod nesaf.

**8. Cefn Croes Covid 19 Funding**

Falck Renewables the owner of the Cefn Croes Wind Farm has provided additional funds to help those in the community that are experiencing difficulties as a result of the Covid 19 pandemic and asking for suggestions of ways to distriubte the funding. Members to propose suggestions and discuss at next meeting.

**9. Ceisiadau Cynllunio**

- **A200077: Arch View, Pontarfynach – Proposed 4 No Chalet Units and Associated Works, amended plans**

Datganodd R. Pratt ddiddordeb wrth drafod y cais.

Cytunwyd ymateb i gais Cyngor Sir Ceredigion**:**

Er nad oedd gan Gyngor Cymuned Pontarfynach unrhyw wrthwynebiad i'r cais gwreiddiol, yn dilyn addasiadau i'r cais roedd y Cynghorwyr Cymuned yn poeni am faint y datblygiad a fyddai'n dod a swn ychwanegol a fwy o olau'n y nos i fewn i ardal tawel o'r Gymuned.

**A200319: Cefn Croes Wind Farm:** Dim Gwrthwynebiad.

**9. Planning Applications:**

**A200077: Arch View, Pontarfynach – Proposed 4 No Chalet Units and Associated Works, amended plans**

R. Pratt declared an interest in this item.

It was resolved to respond to Ceredigion County Council:

Although Pontarfynach Community Council had no objection to the original application, following the amendment to the application Community Councillors were concerned about the large scale of the development which would bring in extra noise and night light to a quite area of the Community.

**A200319: Cefn Croes Wind Farm**: No objection

**10. GOHEBIAETH**

(a) Cais gan ddeiliaid lleol am un o'r Goleuadau Stryd yn Heol Elennydd, Pontarfynach gael ei adael arno drwy'r nos gan fod ardal o amgylch yn eithaf tywyll.
Byddai angen i'r Cyngor Cymuned wneud cais o'r fath i Gyngor Sir Ceredigion, ond er mwyn sicrhau na fyddau camau o'r fath yn effeithio ar breswylwyr eraill yn y cyffiniau penderfynwyd gofyn i'r Cyngor Sir a oes awgrymiadau eraill y medrir ystyried cyn gwneud penderfyniad.

(b) Cais am nawdd ariannol wrth Tenovous Cenedlaethol.

**10. CORRESPONDENCE**

(a) Request from a local resident for a Street Light at Heol Elennydd, Devil's Bridge to be kept on all night due to the area being quite dark.
Such a request would need to be made by Community Council to Ceredigion County Council, but in order to ensure that such action doesn't affect other residents in the vicinity it was resolved to ask the County Council if there are alternative solutions available before making a decision.

(b) Donation request from Tenovous but as it was the National charity it

Penderfynwyd peidio a chyfrannu ar hyn o bryd, gan mai ond elusennau lleol y cyfrannir tuag ato.

was decided not to donate at present due to only donating to local charities.

**11. UNRHYW FATER ERAILL**

(a) Ffordd am Pwllpeiran – wrth y groesffordd triongl mae lorriau trwm wedi bod yn troi o amgylch gan achosi niwed a mwd ar y ffordd.

(b) Rhiw Cae Meirch – Coeden fawr yn pwyso yn erbyn cabl ffon

(c) Carthffosiaeth o Heol Elennydd yn gollwng ar hyd cae tu ôl i'r tai.

(d) Diolchwyd i'r Cynghorydd Sir Lleol, Rhodri Davies am ei gefnogaeth a'i gymorth i drigolion lleol Ward Melindwr i ymdopi gyda'r Pandemig Coronofeirws. Cydnabyddiaeth hefyd i bawb sydd wedi cyd-dynnu i gynorthwyo'u gilydd yn y cyfnod yma, gan gynnwys aelodau o Glwb Ffermwyr Ifainc Trisant sydd wedi bod yn siopa i drigolion lleol oedd yn gaeth i'r ty.

(e) Cyfeiriwyd bod olew wedi gollwng yn Ysgol Mynach yn ddiweddar gan achosi niwed i'r safle.

(f) Blodau I'r Pentrefi.
Cytunwyd i dalu am flodau pan fydd angen i'w dodi yn y bocsys ger arwyddion pentrefi – Cwmystwyth, Pontarfynach a Thrisant.

**11. ANY OTHER MATTER**

(a) Road to Pwllpeiran from the direction of Arch, heavy lorries have been turning around causing damage and mud across the road.

(b) Rhiw Cae Meirch: large tree leaning against a telephone cable.

(c) Sewerage from Heol Elennydd is leaking in the field behind the houses.

(d) The local county councillor, Rhodri Davies, was thanked for his support and assistance to the local residents of the Melindwr Ward to cope with the Coronovirus pandemic. Acknowledgement also to all that have been assisting neighbours especially Trisant YFC Club by shopping for those is the locality unable to do so.

(e) Reference was made to an oil leak at Mynach School recently causing damage to the site.

(f) Flowers for the Villages
Resolved to pay for the purchase of flowers for the village sign boxes when needed in Cwmystwyth, Devil's Bridge and Trisant.

12. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Y cyfarfod nesaf i'w gynnal ar nos Iau 2 Gorffennaf, 2020.

12. **DATE OF NEXT MEETING**

The next meeting to be held on Thursday 2nd July, 2020.